| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **29 IONAWR 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO –<br>THE UNIVERSITY PLAICE, 21 HOLYHEAD ROAD, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais i amrywio trwydded eiddo Univeristy Plaice, 21 Ffordd Gaergybi, Bangor ar 8 Rhagfyr 2015 oddi wrth deilydd y drwydded Mr Mehmet Ali Usal.

Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Natur yr amrywiad arfaethedig yw ymestyn oriau agor y busnes a'r oriau darparu lluniaeth hwyr y nos ar ddydd Llun, Mawrth, Mercher a Sul i 03:00 y bore.

| **Trwydded Presenol** | **Trwydded Arfaethedig** |
|---|---|
| **Oriau Agor:**<br><br>Dydd Llun: 23:00-02:30<br>Dydd Mawrth: 23:00-02:30<br>Dydd Mercher: 23:00-02:30<br>Dydd Iau: 23:00-03:00<br>Dydd Gwener: 23:00-03:30<br>Dydd Sadwrn: 23:00-03:30<br>Dydd Sul: 23:00-02:30<br><br>**Lluniaeth Hwyr y Nos** - Awyr Agored<br>Dydd Llun: 23:00-02:30<br>Dydd Mawrth: 23:00-02:30<br>Dydd Mercher: 23:00-02:30<br>Dydd Iau: 23:00-03:00<br>Dydd Gwener: 23:00-03:30<br>Dydd Sadwrn: 23:00-03:30<br>Dydd Sul: 23:00-02:30 | **Oriau Agor:**<br><br>Dydd Llun: 23:00-**03:00**<br>Dydd Mawrth: 23:00-**03:00**<br>Dydd Mercher: 23:00-**03:00**<br>Dydd Iau: 23:00-03:00<br>Dydd Gwener: 23:00-03:30<br>Dydd Sadwrn: 23:00-03:30<br>Dydd Sul: 23:00-**03:00**<br><br>**Lluniaeth Hwyr y Nos** - Awyr Agored<br>Dydd Llun: 23:00-**03:00**<br>Dydd Mawrth: 23:00-**03:00**<br>Dydd Mercher: 23:00-**03:00**<br>Dydd Iau: 23:00-03:00<br>Dydd Gwener: 23:00-03:30<br>Dydd Sadwrn: 23:00-03:30<br>Dydd Sul: 23:00-**03:00** |

Gwelir y camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu yn adran M o'r ffurflen gais. Gwelir copi o'r ffurflen gais i amrywio'r drwydded fel Atodiad 1.

Gwelir copi o'r drwydded gyfredol a'r amodau cyfredol fel Atodiad 2.

## GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno sawl cais i ymestyn oriau trwyddedig yr eiddo yn y gorffennol. Penderfynwyd y ceisiadau hyn gan yr Is-bwyllgor. Yn Hydref 2013, rhoddwyd caniatâd iddynt ymestyn oriau agor y busnes ar nos Wener a Sadwrn i 03:30 y bore. Yn Medi 2014, rhoddwyd caniatâd iddynt ymestyn oriau agor y busnes ar nos Iau i 3:00 y bore.

**SYLWADAU**

| Ymateb | Sylwadau |
|---|---|
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim Sylwadau |
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Dim Sylwadau |
| Aelodau Lleol | 2 Gwrthwynebiad |
| Partion a diddordeb | Dim sylwadau mewn pryd |

Gwelir copïau o'r 2 gwrthwynebiad oddi wrth yr aelodau lleol fel Atodiad 2. Sylwir bod y ddau wrthwynebiad wedi eu gwneud ar sail atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003 a Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd.